Cyfarfod Bwrdd Cynghori Taith
Dydd Iau 27 Mehefin 2024, 1.30pm – 3.30pm
Cyfarfod a gynhaliwyd dros Teams

Rhestr o'r bobl a fu'n bresennol	
Yn bresennol:	**(KW)** Kirsty Williams, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori **(CL)** Chelsea Ljutić **(HP)** Hannah Pudner **(HB)** Hayley Bendle **(LVE)** Lem van Eupen **(SH)** Sian Hughes
Dirprwyon:	**(APE)** Angharad Penny Evans (cynrychiolodd Zenny Saunders yn y cyfarfod)
Gwesteion:	**(IT)** Ioan Teifi (Wavehill) **(DT)** Declan Turner (Wavehill)
Ymddiheuriadau:	**(NA)** Nabil Ali **(AMG)** Anne Marie Graham **(ZS)** Zenny Saunders (Aelod Ex Officio) **(WB)** Walter Brooks
Gweithrediaeth Rhaglen Taith (TPE):	**(SG)** Susana Galván **(EM)** Dr Elid Morris **(EB)** Ellie Bevan **(LD)** Leah Doherty **(HG)** Helen Gentle
Ysgrifenyddiaeth gynorthwyol:	**(DJ)** Delyth Johnson

*Mae'r ystadegau a amlygir yn y cofnodion hyn yn gywir ar 20 Mehefin 2024.

Cofnodion		
Eitem Eitem	**Eitem**	**Camau Gweithredu (A) Trafodaeth (D)**
1	**Croeso a Chyflwyniadau**	
1.1	Croesawodd **KW** yr holl aelodau a gwesteion i'r cyfarfod, gan gynnwys dau westai o Wavehill (Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd), Ioan Teifi a Declan Turner a gynhaliodd weithdy fel rhan o agenda'r cyfarfod hwn. Mynychodd Angharad Penny Evans i gynrychioli Zenny Saunders a Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod.	
1.2	Hysbysodd **KW** y Bwrdd Cynghori (AB) fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cymryd cofnodion a gofynnodd i aelodau gadw'r swyddogaeth sgwrsio at ddibenion materion gweithredol.	
2	**Taith: Diweddariad cyffredinol**	
2.1	Roedd papur wedi'i ddarparu cyn y cyfarfod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Taith hyd yn hyn. Cyflwynodd SG ddiweddariad cyffredinol yn y cyfarfod a bydd y cyflwyniad yn cael ei rannu â'r Bwrdd ar ôl y cyfarfod:	
2.2	Amlygodd y diweddariad* y pwyntiau canlynol ac mae manylion i'w cael yn y cyflwyniad: - Derbyniwyd 222 cais hyd yn hyn ar gyfer dros 4 galwad am gyllid (Llwybr 1 (2022 a 2023) a Llwybr 2 (2022 a 2023). Bu 160 cais yn llwyddiannus (£19,995,504 yw'r cyfanswm a ariannwyd.) - Mae 287 sefydliad yng Nghymru yn elwa o gyllid Taith - Mae 4,188 symudedd gyda 3,936 cyfranogwr wedi digwydd - Mae 42% o ddysgwyr allanol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - Mae 84 gwlad a thiriogaeth wedi'u rhestru ar gyfer cyfnewid. - Prosiectau fesul sector: 37% Ysgolion, 22% Ieuenctid, 15% AB/VET, 10% AU, 9% AO, 7% Ymchwil. Rhagwelir mai Addysg Uwch fydd y sector mwyaf yn y pen draw ond nid yw'r rhan fwyaf o'r symudiadau yn y sector hwn wedi digwydd eto.	

*Mae'r ystadegau a amlygir yn y cofnodion hyn yn gywir ar 20 Mehefin 2024.

	- Rhannwyd y rhaniad o geisiadau a cheisiadau ailadroddus dros Lwybr 1 a Llwybr 2 gyda'r Bwrdd. - Nodweddion Cyfranogwyr allanol: ADY 9%, Anabledd 5%, Lleiafrif Ethnig 21%, Dan anfantais 28%, Siaradwyr Cymraeg 21% - Ceisiadau Llwybr 1 2024: Rhannwyd ffigurau dangosol o geisiadau llwyddiannus, ail geisiadau a dyraniad cyllid. Mae hyn yn ddangosol gan nad yw'r llythyrau cytundeb grant wedi'u dosbarthu eto a bydd rhai symiau cyllid yn cael eu haddasu. Atgoffodd SG y Bwrdd fod cyllideb eleni llawer yn is oherwydd gostyngiadau yn y gyllideb a bod y sector Addysg Uwch bellach yn cynnwys Ymchwil lle'r oedd y rhain yn sectorau ar wahân mewn llwybrau blaenorol. - Mae Taith bellach yn cael syniad o dueddiadau ac yn dechrau casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata'r rhaglen. Y prif ffocws bellach yw sut mae stori Taith yn cael ei adrodd a chyfathrebu effaith y rhaglen. - Fel rhan o'r diweddariad hwn rhannwyd dau fideo o brosiectau diweddar: Uned Cyfeirio Disgyblion Penrhos Avenue ac Ysgol Pen-y-bryn.	
3	**Gwerthusiad Annibynnol Taith: Gweithdy am Effaith a Gwerth am Arian**	
3.1	Cyflwynodd TG a DT eu hunain a gwaith Wavehill i'r Bwrdd. Bydd Wavehill yn cynnal gwerthusiad dros dro o raglen Taith eleni gofynnwyd am fewnbwn y Bwrdd Cynghori ar sut y maent yn mesur mewnbwn a gwerth am arian fel rhan o hyn. Roeddent wedi darparu trosolwg o fodel Gwerth am Arian (VFM) Taith mewn papur a ddarparwyd i aelodau'r Bwrdd cyn y cyfarfod. Nod y sesiwn oedd: • Cynhyrchu Fframwaith VFM gyda chefnogaeth grwpiau rhanddeiliaid allweddol (megis y Bwrdd Cynghori yn yr achos hwn) y gellir ei ddefnyddio i asesu'r gwerth y mae'r rhaglen Taith yn ei greu. • Bod â safbwynt cytûn ar yr hyn sy'n gyfystyr â gwerth da – yn benodol, cael set gytûn o fetrigau a mewnbwn ar y ffordd orau o farnu llwyddiant, gan gynnwys y meini prawf a ddefnyddiwyd a'r pwysoliad a roddir i bob metrig. Cyflwynodd IT a DT rhesymeg a nodau'r gwerthusiad.	

*Mae'r ystadegau a amlygir yn y cofnodion hyn yn gywir ar 20 Mehefin 2024.

	Rhannwyd y Bwrdd yn ddwy sesiwn grŵp i ystyried beth yw gwerth da i ddysgwyr/pobl ifanc a chyfranogwyr staff a pha fetrigau y dylid eu defnyddio ar gyfer y 5 E (Economi, Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd, Cost-effeithiolrwydd a Thegwch) a'r meini prawf dyfarnu. Bydd IT a DT yn darparu nodiadau sy'n benodol i'r gweithdy hwn a bydd y rhain yn cael eu rhannu â'r Bwrdd gyda'r cofnodion hyn. Gellir anfon unrhyw sylwadau/adborth pellach i Wavehill drwy Weithrediaeth Rhaglen Taith.	IT/DT PAWB
4	**Dyddiad y cyfarfod nesaf ac Unrhyw Fater Arall**	
4.1 4.2	Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 24 Hydref 2024. Ni chodwyd unrhyw fater arall.	

*Mae'r ystadegau a amlygir yn y cofnodion hyn yn gywir ar 20 Mehefin 2024.